CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 16fed o Fai 2017 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania am 7 y.h.

1.0 YN BRESENNOL

Daniel Williams	Mair Bebb Jones
Gruff John	Nerys John
Iestyn Harris	Casi Roberts
Aled Emyr	Sarah Riley
Iestyn Harris	
Aelodau o'r cyhoedd: 2	
Swyddog Ariannol: Wynne Barton	Cynghorydd Sir Gareth Griffiths

2.0	**GAIR O GROESO A SYLWADAU AGORIADOL**	
2.1	Agorwyd y cyfarfod gan y Clerc drwy esbonio bod angen i'r aelodau etholedig arwyddo'r datganiad i gadarnhau derbyn swydd fel Cynghorydd Cymunedol ac i ymrwymo i'r Côd Ymddygiad. Derbyniwyd y datganiadau ac eithrio Peter Simpson oedd yn ymddiheuro.	
3.0	**ETHOL CADEIRYDD**	
3.1	Cynigwyd ac eilwyd Daniel Williams fel Cadeirydd, roedd yn barod i ymgymeryd a'r swydd. Ni chynigwyd aelod arall am y gadeiryddiaeth felly etholwyd Daniel Williams yn unfrydol am y flwyddyn 2017-2018.	
3.0	**DERBYN CWESTIYNAU ODDI WRTH AELODAU O'R CYHOEDD**	
	Nid oedd gan aelodau'r cyhoedd gwestiynau ar gyfer y Cyngor.	
4.0	**ETHOL IS-GADEIRYDD**	
4.1	Eglurodd y Cadeirydd bod angen ethol Is-Gadeirydd. Cynigwyd ac eilwyd y Cynghorydd Iestyn Harris; roedd yn barod i ymgymeryd a'r swydd. Ni chynigwyd aelod arall am y swydd o is-gadeirydd felly etholwyd Iestyn Harris yn unfrydol am y flwyddyn 2017-2018.	
5.0	**ANERCHIAD Y CADEIRYDD**	
5.1	Diolchodd y Cynghorydd Daniel Williams i'r aelodau am roi ffydd ynddo i gadeiryddio unwaith eto. Diolchodd iddynt am eu parodrwydd i roi o'i hamser i weithio yn galed drwy'r flwyddyn ar gyfer y gymuned. Cyfeiriodd am lwyddiannau fel y cloc a'r cae chwarae. Cyfeiriodd hefyd am broblemau yn bennaf gyda'r Neuadd ond bod pethau yn symud yn ei blaen. Bydd y Cyngor yn wynebu sialensau wrth i arian cyhoeddus gael ei wasgu a mwy o wasanaethau yn syrthio oddi wrth y Cyngor Sir i'r Cynghorau Cymuned. Rhoddwyd deyrnged i Mrs Eluned Owen cyn aelod o'r Cyngor Cymuned a hefyd i Karel Williams gwr Lliwen cyn aelod y Cyngor. Yn ol yr arfer cafwyd ennyd o ddistarwydd i goffau pawb a gollwyd yn y pentref yn ystod y flwyddyn.	

	Ymddiheuriadau: Peter Simpson	
6.0	**APWYNTIO CYNRYCHIOLWYR**	
6.1	**Llywodraethwyr yr Ysgol** – mae y Cynghorydd Iestyn Harris yng nghanol y cyfnod o bedair blwyddyn o fod yn Lywodraethwr a bydd yn parhau yn y swydd.	
6.2	**Clwb Pêl Droed Ieuenctid** – etholwyd Gruff John fel cynrychiolydd.	
6.3	**Unllais Cymru** - Cynrychiolir y Cyngor ar Unllais Cymru gan Iestyn Harris a Nerys John.	
7.0	**ETHOL AELODAU A'R IS-BWYLLGORAU**	
7.1	**Neuadd Goffa, Cloc** - Dewiswyd Daniel Williams, Iestyn Harris, Gruff John, Casi Roberts ac Aled Emyr a'r is-bwyllgor y Neuadd	
7.2	**Mynwent, Maes Parcio, Lon Las** - Dewiswyd Peter Simpson, Casi Roberts a Mair Bebb Jones	
7.3	**Llwybrau, Cysgodfannau, Meinciau a Safle Moriah –** Dewiswyd Gruff John, Nerys John a Sarah Riley,	
7.4	**Prosiectau Cymunedol** – Dewiswyd – Nerys John, Casi Roberts a Sara Riley.	
7.7	**Gwefan –** Dewiswyd Casi Roberts, Aled Emyr, Gruff John a Sarah Riley	
8.0	**PENDERFYNU AR NOSON A DYDDIADAU CYFARFODYDD MISOL Y CYNGOR**	
8.1	Penderfynwyd a pharhau a'r trefniad cyfarfod misol presennol gyda gwyliau ym Mis Awst.	
9.0	**SEDDI GWAG**	
9.1	Mae pedair sedd wag yn bodoli.	
10.0	**ARCHWILIWR MEWNOL**	
10.1	Archwilywr o fewn y Cyngor fydd Iestyn Harris a Sarah Riley.	
10.2	Penderfynwyd mai yr Archwilwr Mewnol fydd Mr John D Roberts. Y Swyddog Ariannol i anfon llythyr gwahoddiad iddo gan restru yr hyn sydd ei angen..	**SWYDDOG ARIANNOL**
11.0	**ADRODDIAD CYLLID**	
11.1	Cyflwynwyd yr Adroddiad Cyllidol 01/04/2016 – 31/03/2017 gan y Swyddog Ariannol. Cynnigwyd ac eilwyd yr adroddiad fel un cywir ac fe'i derbyniwyd a'u mabwysiadu yn unfrydol gan y Cyngor.	
11.2	Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Arianol am ei waith trylwyr bob amser.	
12.0	**POLISIAU'R CYNGOR**	
12.1	Mae polisiau Rheoli Risg, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau ariannol a Rheolaeth Mewnol yn rhan o'r llawlyfr.gofynwyd y clerc i'r aelodau os byddai'r cyngor fod yn fodlon ar dderbyn dogfennau cyfarfodydd o flaen llaw yn electronig o hyn allan ac yna derbyn rhai caled ar noson y cyfarfod. Byddai yr ymarfer yma yn arbed costau postio. Derbyniwyd hyn gan y Cyngor.	
13.0	**ADRODDIAD PWYLLGOR CYFLOGAETH**	
13.1	Roedd yr is-bwyllgor wedi cyfarfod ond wedi penderfynnu cynnal cyfarfod arall ar gyfer trafod cyflogau.	
	Daeth y Cyfarfod Blynyddol i ben oddeutu 7.45 o'r gloch.	

Heather Lynne Jones